Scripture Union

# **PROFFIL Y SWYDD:** Ysgogydd Cenhadol (Cymru)

| Maes y Genhadaeth | Tîm |
|---|---|
| Datblygu Cenhadaeth | Cenhadaeth Ranbarthol |
| Safle'r Swydd yn y Sefydliad | |
| Bydd yr Ysgogydd Cenhadol yn adrodd wrth Gydlynydd Cenedlaethol Cenhadaeth, Cymru. | |
| Gair am Scripture Union yng Nghymru a Lloegr | |
| Mae Scripture Union yn fudiad cenhadol yng Nghymru a Lloegr, sy'n helpu eglwysi a chapeli ddatgelu Iesu at y genhedlaeth nesaf. Rydym yn arfogi eglwysi a chapeli i gyrraedd plant a phobol ifanc – yn enwedig y rhai sydd tu allan i'r eglwys – ble bynnag yr ydynt, ac mewn ffyrdd sydd wir yn cysylltu â nhw. Oherwydd dylai pob plentyn a pherson ifanc cael y cyfle i ddarganfod Iesu, ac mae gormod sydd ddim mynd i gael y cyfle yna.<br><br>Wrth gynnig adnoddau wedi'u sefydlu yn y Beibl, hyfforddiant ymarferol, a'n fframwaith cenhadaeth *Datgelu Iesu*, rydym ni'n helpu eglwysi a chapeli i adeiladu perthnasoedd sy'n arwain at ffydd. Mae'r tîm o Ysgogyddion Cenhadol yn cefnogi a thyfu rhwydwaith o Dywysyddion Ffydd – pobol leol gyda chysylltiadau cryf gyda'u cymuned leol, sy'n datgelu Iesu mewn bywyd pob dydd. | |
| Gweledigaeth SU yng Nghymru a Lloegr | |
| Ein gweledigaeth yw gweld cenhedlaeth newydd o blant a phobl ifanc yn dod i ffydd bersonol, fyw yn Iesu. | |
| Diben y tîm | |
| Cyflawni cenhadaeth Scripture Union yng Nghymru, arloesi a chreu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd ymhlith y 95% sydd heb gysylltiad â chapel neu eglwys i archwilio'r Beibl, ymateb i Iesu a thyfu mewn ffydd. Ein blaenoriaeth yw cyrraedd rhai nad ydynt yn nabod Iesu eto trwy eu helpu i *gysylltu, archwilio, ymateb a tyfu.* | |
| Diben y swydd | |
| Cynnig cyfeiriad ac egni i weinidogaeth Scripture Union gan ganolbwyntio ar gychwyn a chynnal cyfleoedd i weinidogaethu. Bydd angen i'r sawl a benodir recriwtio, ysgogi, hyfforddi, paratoi a chefnogi llawer o Wirfoddolwyr a Thywyswyr Ffydd gan gydweithio â nhw. Bydd yn arwain trwy esiampl hefyd, gan genhadu mewn ffordd ardderchog ymysg plant a phobl ifanc yn unol â chenhadaeth Scripture Union.<br>*"Gan ein bod ni'n eich caru chi gymaint, roedden ni'n barod i roi'n bywydau drosoch chi yn ogystal â rhannu newyddion da Duw gyda chi." 1 Thes 2:8.* | |
| Diogelu | |

Mae bob un aelod o staff yn Scripture Union â chyfrifoldeb dros ddiogelu plant a phobl ifanc rhag pob math o gam-drin ac am adrodd unrhyw gamdriniaeth a ddatgelir ynghyd ag unrhyw amheuon neu bryderon, yn unol â pholisïau Scripture Union ym maes diogelu.

## Sgôp y rôl

Dimensiynau a meintiau pwysicaf y swydd hon yw cydnabod y gall rhai gweithgareddau berthyn i un categori neu fwy nag un; ar y cyfan, disgwylir y bydd yr Ysgogydd Cenhadol yn treulio'i (h)amser, yn fras, fel a ganlyn oni chytunir yn wahanol gyda Chydlynydd Cenhadaeth Genedlaethol Cymru:

- Ysgogi Cenhadaeth (60%): Fel rhan o'r tîm cenedlaethol yng Nghymru, gweithredu Cynllun Strategol Scripture Union gan ganolbwyntio'n neilltuol ar: a) recriwtio Tywyswyr Ffydd; b) defnyddio technegau 'coaching' er mwyn cefnogi Tywyswyr Ffydd o fewn ein fframwaith cenhadol, sef cysylltu, archwilio, ymateb a thyfu; c) datblygu Cymunedau Twf (yn cynnwys peth gweithgarwch wyneb-yn-wyneb gyda phlant a phobl ifanc wrth arloesi gweinidogaethau newydd).
- Modelu Cenhadaeth (10%): Arloesi, arwain, trosglwyddo a chefnogi gwaith cenhadol wyneb-yn-wyneb gyda phlant a phobl ifanc fel rhan o'n fframwaith cenhadol.
- Codi arian (10%): Canfod a gweithredu ffyrdd o fod yn gynaliadwy, trwy sicrhau cyllid ar gyfer gweinidogaeth, a chynnal gweithgareddau perthnasol yn y tîm cenedlaethol yng Nghymru ac mewn partneriaeth â thîm codi arian *Scripture Union England and Wales*.
- Blaenoriaethau Strategol Eraill (20%):
  - Hyfforddi, paratoi a chefnogi gwirfoddolwyr (yn cynnwys Partneriaid Cenhadol Lleol Scripture Union) gan sicrhau ffyrdd a dulliau o chwarae rhan yng nghenhadaeth y mudiad.
  - Hyrwyddo a modelu adnoddau Scripture Union (Pecyn Cenhadol) ac unigrywiaeth y mudiad, y tu mewn i'r mudiad a'r tu allan iddo.

- Llywio a chefnogi cynlluniau strategol ac adnoddau a fydd yn effeithiol mewn capeli ac eglwysi, ysgolion a'r gymuned, fel cenadaethau chwaraeon a chynlluniau i ennyn diddordeb plant yn y Beibl.
- Datblygu a threialu adnoddau cenhadol newydd yn yr Hyb Datblygu, a all gynnwys secondiadau tymor byr.
- Mynychu cyfarfodydd staff, cynadleddau a dyddiau gweddi yn ôl y gofyn.
- Ymroi i Ddatblygiad Personol, gan geisio ehangu a lledu dealltwriaeth, profiad a sgiliau.

| Cyfrifoldebau allweddol: |
| --- |
| Cyfrifoldebau allweddol y swydd hon yw:<br>• Canfod, recriwtio a chefnogi Tywyswyr Ffydd, gwirfoddolwyr a Phartneriaid Cenhadu Lleol (LMPs) trwy wahanol ddulliau gan gynnwys yn ddigidol, dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb.<br>• Darparu anogaeth a/neu mentora perthnasol, paratoi ac arfogi Tywyswyr Ffydd, gwirfoddolwyr ac LMPs.<br>• Arwain gweithgareddau cenhadol lleol fel rhan o fframwaith cenhadol Scripture Union, gan sefydlu proses ac amserlen clir ar gyfer trosglwyddo i bartneriaid yn yr eglwysi.<br>• Mynd ati yn unol â strategaeth SU i arloesi gyda dulliau/syniadau newydd sydd â'r potensial i gael eu hailadrodd mewn mannau eraill gan arwain at weithgarwch cenhadol ehangach a dyfnach.<br>• Cefnogi rhaglen ehangach SU o wyliau a chenadaethau ledled Cymru a Lloegr ac, os yw'n briodol, dramor, trwy ei hyrwyddo neu gymryd rhan ynddi.<br>• Cynnal gweithgareddau a dulliau codi arian penodol yn unol â gwaith codi arian SU.<br>• Darparu hyfforddiant/cefnogaeth / mynediad at adnoddau lle mae posibilrwydd cryf y bydd hyn yn arwain at genhadaeth neu'n meithrin gweithgarwch.<br>• Cyfrannu at lywio strategaeth y mudiad trwy ymuno â Gweithgorau/Grwpiau Ffocws fel y cytunir gyda Chydlynydd Cenhadaeth Genedlaethol Cymru.<br>• Hyrwyddo gweinidogaeth Scripture Union trwy rwydweithio ac eiriolaeth strategol.<br>• Gwneud gwaith a chynnal prosiectau eraill ar gais y Cydlynydd Cenhadaeth Genedlaethol Cymru.<br>Cydweithio â holl aelodau'r staff i:<br>• Hyrwyddo nodau ac amcanion Scripture Union, gan weithio yn unol â'i ethos<br>• Cymryd rhan ym mywyd gweddi a chymdeithas Scripture Union, yn cynnwys cyrddau gweddi'r staff, dyddiau gweddi ac addoli, a chynadleddau staff sy'n cyfuno gweddi, addoli a strategaeth.<br>• Cymryd rhan mewn datblygiad personol trwy astudio a myfyrio, adolygiadau gwaith a hyfforddiant mewn swydd. |
| Dangosyddion perfformiad allweddol |
| Dangosyddion perfformiad allweddol y swydd hon yw:<br>• Gweld twf yn y rhwydwaith o Dywyswyr Ffydd gwirfoddol sy'n rhan o fframwaith cenhadol Scripture Union gan gyflwyno gweinidogaeth ar y model: *cysylltu, archwilio, ymateb a thyfu*, wrth ddefnyddio technegau 'coaching' effeithiol.<br>• Gweld twf yn y rhwydwaith o Gymunedau Twf sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi ymateb yn gadarnhaol i Iesu.<br>• Gweld twf mewn cefnogaeth bersonol ac yn y cefnogwyr gweddi a fydd yn cynnal y weinidogaeth. |

- Mynd ati i helpu i lywio, diffinio a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau Datblygu Cenhadaeth.
- Gweld twf yn nifer o grwpiau Dywyswyr Ffydd sy'n mynychu cyfleoedd preswyl.

## Cymwysterau a thystysgrifau addysg a / neu hyfforddiant

Bydd gan y sawl a benodir:

- Gymhwyster ar lefel gradd mewn Diwinyddiaeth neu Addysg. Caiff profiad cyfatebol ei ystyried.

## Manyleb y person

Bydd y sawl a benodir:

- Yn gallu meddwl yn strategol a bydd ganddo/ganddi ddealltwriaeth gadarn o effeithiau gweinidogaethu.
- Yn wybodus iawn am weinidogaethu gyda phlant a phobl ifanc, a bydd yn eiriolwr brwd, yn ymarferydd rhagorol ac yn gyfathrebydd effeithiol.
- Yn dylanwadu ar rwydweithiau, yn llywio barn, yn herio difaterwch ac yn ysbrydoli creadigrwydd.
- Yn hunan-ddisgybledig, yn gallu trefnu a blaenoriaethu'r llwyth gwaith a rheoli sawl prosiect ar yr un pryd.
- Yn gallu gweld nodau hirdymor a gweithio tuag atynt.
- Yn agored i wahanol draddodiadau, arddulliau a ffyrdd o fynegi ysbrydolrwydd, gweddi ac addoliad ac yn gyfforddus gyda nhw, ac yn dod i adnabod ac i ddeall y Beibl yn well.
- Wedi cysegru ei hun i Dduw ac yn ddisgybl i Grist.
- Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol a byddai'n fuddiol pe gallai siarad Cymraeg.

Fel holl aelodau'r staff, bydd y sawl a benodir yn:

- Gristion o argyhoeddiad sy'n cydymdeimlo â nodau ac ethos Scripture Union ac sy'n cymryd rhan fyw yng nghenhadaeth eglwys leol.
- Ceisio cael dealltwriaeth gadarn o'r Beibl gan gymhwyso hynny at fyw o ddydd i ddydd ac annog eraill i wneud hynny hefyd.

## Sgiliau technegol / ymarferol angenrheidiol

Bydd y sawl a benodir yn:

- Gallu dangos dealltwriaeth dda o'r cyd-destun Cymreig, diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.
- Gallu helpu i gyflwyno adnoddau cenhadol SU a chefnogaeth yn yr iaith Gymraeg hyd y bo modd.
- Gallu helpu i sicrhau bod cenhadaeth SU yn berthnasol i'r eglwys ac i ddiwylliant ehangach Cymru.
- Gyfarwydd â defnyddio ebost, y cyfryngau cymdeithasol, MS Word, ac Excel.

## Ymddygiad sy'n ofynnol

| | |
|---|---|
| Hyblygrwydd | Parod i addasu'ch syniadau a'ch ymddygiad i ateb gofynion gwahanol sefyllfaoedd, gan ddangos agwedd hyblyg er budd y Mudiad. Gallu gweld gwerth safbwynt gwahanol mewn gwahanol sefyllfaoedd. |
| Meithrin perthynas | Gweithio i sefydlu, meithrin a chynnal perthynas hirdymor gadarnhaol gyda chydweithwyr a phobl y mae gennych gysylltiad â nhw. |
| Datblygu pobl eraill | Creu amgylchedd agored a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb ac yn cael eu hannog. Gwrando, cefnogi a chanfod cyfleoedd i bobl eraill ddysgu. Annog, mentora un-i-un a chynnig ymateb clir, onest ac adeiladol. |
| Canolbwyntio ar ganlyniadau | Pennu nodau ac amcanion heriol ond realistig, gan ymdrechu i'w cyrraedd o fewn cyfnod y cytunir arno. |

## Amodau Gwaith Anffafriol

Mae angen teithio yn y swydd, yn aml gan gario adnoddau, felly byddai'n well cael rhywun sy'n gallu gyrru a defnyddio car. Hefyd, mae angen gweithio oriau anghymdeithasol. Weithiau bydd angen treulio amser i ffwrdd o'r gweithle arferol i gymryd rhan mewn cyfarfodydd preswyl. Mae'n debygol y bydd y sawl a benodir yn gweithio gartref gan amlaf.